



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o ymateb

## Rheoliadau Rasio Moduron

16 Tachwedd 2017

This document is also available in English.  
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Cefndir yr Ymgynghoriad.....	3
Crynodeb o'r Broses Ymgynghori ac Ymateb Llywodraeth Cymru .....	4
Ymatebion i'r Cwestiynau ac Ymateb Llywodraeth Cymru .....	4
Casgliadau.....	8

## Cyflwyniad

Roedd yr ymarfer ymgynghori hwn yn ceisio safbwyntiau ar ein hopsiwn dewisol i wneud Rheoliadau yng Nghymru sy'n nodi'r Gymdeithas Chwaraeon Modur ("MSA") a'r Undeb Beiciau Awtomatig ("ACU") fel cyrff a fydd â'r awdurdod i roi trwyddedau o dan adran 12B y Ddeddf Traffig Ffyrdd ar gyfer digwyddiadau rasio moduron ar briffyrdd cyhoeddus yng Nghymru.

Cynhaliwyd yr ymarfer ymgynghori ym mis Gorffennaf a mis Awst 2017, a derbyniwyd cyfanswm o 76 o ymatebion gan y cyhoedd, awdurdodau lleol, busnesau a sefydliadau chwaraeon modur.

Roedd y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn gefnogol o ran y dull dewisol a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori.

## Cefndir yr Ymgynghoriad

Mae gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru eisoes yr hawl i awdurdodi cau ffyrdd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon, achlysuron cymdeithasol neu ddigwyddiadau hamdden ar y priffyrdd, ond nid oes ganddynt yr hawl i gau ffyrdd ar gyfer ras foduron nac i atal rhag gweithredu y Deddfau Traffig Ffyrdd, gan olygu bod terfynau cyflymder, arwyddion traffig a'r angen i gerbyd fod yn ddiogel ar y ffordd yn parhau i fod mewn grym.

Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer troseddau traffig ffyrdd yng ngofal Llywodraeth Prydain, ond mae Gweinidogion Cymru yn arfer rhai swyddogaethau gweithredol, gan gynnwys gwneud rheoliadau yn rhestru cyrff rheoli chwaraeon modur sydd wedi'u hawdurdodi i roi trwyddedau ar gyfer rasio moduron ar y briffordd.

Ym mis Ebrill 2017 daeth Rheoliadau i rym sy'n galluogi cynnal digwyddiadau rasio moduron ar briffyrdd yn Lloegr ar yr amod bod gorchymyn awdurdod lleol wedi cael ei wneud. Mae Rheoliadau yn Lloegr wedi paratoi'r ffordd ar gyfer rasio moduron ar y ffyrdd a threialon cyflymder am y tro cyntaf, ac wedi nodi'r MSA a'r ACU fel y cyrff a fydd â'r awdurdod i roi trwyddedau ar gyfer digwyddiadau rasio moduron ar y ffyrdd yn Lloegr o dan adran 12B Deddf Traffig Ffyrdd 1988 ("yr RTA").

Gweinidogion Cymru sydd â'r hawl i wneud y Rheoliadau uchod yng Nghymru. Yr MSA a'r ACU yw'r cyrff sydd ar hyn o bryd â'r awdurdod i roi trwyddedau ar gyfer digwyddiadau chwaraeon modur yng Nghymru. Diffinnir digwyddiad chwaraeon modur mewn deddfwriaeth fel cystadleuaeth neu dreialon (yn hytrach na ras neu dreialon cyflymder).

Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â chynigion i ddod â Rheoliadau i rym a fyddai'n nodi y cyrff hynny sy'n rheoli chwaraeon modur, sydd â'r awdurdod i gyflwyno trwyddedau o dan adran 12B Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (yr "RTA") at ddibenion rasio moduron ar briffyrdd cyhoeddus yng Nghymru. Mae Adran 12B(6) yr RTA yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion restru'r holl gyrff sy'n rheoli chwaraeon modur sydd â'r awdurdod i roi trwyddedau at ddibenion adran 12B.

Unwaith y bydd trwydded wedi ei rhoi, byddai deiliaid y trwyddedau yn gallu gwneud cais i'r awdurdod priffyrdd perthnasol am y gorchymyn rasio moduron angenrheidiol o dan adran 12C yr RTA. Byddai hyn yn awdurdodi rasio moduron ar y darnau o briffyrdd dan sylw. Byddai'r awdurdod priffyrdd yn penderfynu p'un a ydynt am wneud gorchymyn ras foduron yn unol ag adran 12D yr RTA, drwy ystyried effaith debygol y digwyddiad ar y gymuned leol, manteision posibl i'r economi

leol a manteision arail, ac unrhyw ystyriaethau eraill y mae'r awdurdod priffyrdd yn teimlo eu bod yn berthnasol.

**Roedd yr ymarfer ymgynghori hwn yn ceisio safbwyntiau ar ein hopsiwn dewisol i wneud y Rheoliadau yng Nghymru sy'n nodi'r Gymdeithas Chwaraeon Modur ("MSA") a'r Undeb Beiciau Awtomatig ("ACU") fel cyrff a fydd â'r awdurdod i roi trwyddedau o dan adran 12B y Ddeddf Traffig Ffyrdd ar gyfer digwyddiadau rasio moduron ar briffyrdd cyhoeddus yng Nghymru.**

## **Crynodeb o'r Broses Ymgynghori ac Ymateb Llywodraeth Cymru**

### **Y Broses Ymgynghori**

Cynhaliwyd yr ymarfer ymgynghori o 18 Gorffennaf 2017 i 29 Awst 2017. Anfonwyd llythyrau at yr holl awdurdodau lleol ac roedd deunydd yr ymgynghoriad ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### **Ymatebion a Dderbyniwyd**

Derbyniwyd cyfanswm o 76 o ymatebion gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau ledled Cymru. Derbyniwyd ymatebion gan y canlynol:

#### **Cyrff Cyhoeddus:**

Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parc	5
Cenedlaethol	4
Eraill	

#### **Y sector Preifat:**

Business	4
----------	---

#### **Cyrff Proffesiynol:**

Sefydliadau Rasio Moduron	24
---------------------------	----

<b>Unigolion:</b>	39
-------------------	----

Mae rhestr lawn o ymatebwyr wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

## **Ymatebion i'r Cwestiynau ac Ymateb Llywodraeth Cymru**

### **Cwestiwn 1: A ydych yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau?**

Gwnaeth pob un o'r 76 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn, gyda 75 o blaid, gan roi barn sydd bron yn unfryd o blaid, gydag ond un ymatebwr yn rhoi sylwadau negyddol.

Roedd rhai o'r sylwadau allweddol a wnaed gan nifer o'r ymatebwyr yn cynnwys y canlynol:

Buddion economaidd raliö i Gymru, a'r effeithiau cadarnhaol a ddeuai o'r newidiadau, er enghraifft: *"Rydw i hefyd yn ymwybodol iawn o faint o refeniw y mae rali yn ei ddwyn i'r ardal, os ydych yn ystyried bod pob car yn dod â thîm sy'n cynnwys o leiaf pedwar unigolyn (yn aml mwy) a dau gar (yn aml mwy). Mae angen llety, bwyd a thanwydd ar y criwiau hyn, felly mae'n golygu gwariant uchel ar gyfer pob tîm. Gallai'r potensial i Gymru drwyddi draw a'r cymunedau lleol fod yn anferth."*

Nododd nifer o ymatebwyr hefyd fod yn rhaid iddynt deithio dramor ar hyn o bryd i weld neu gymryd rhan mewn digwyddiadau tebyg, felly byddai'r newidiadau hyn yn dod â mwy o bobl i Gymru yn lle hynny, er enghraifft; *"ar hyn o bryd mae'n rhaid i mi deithio i Iwerddon neu i*

*Wlad Belg i ralió mewn cystadlaethau ffyrdd caeedig, arian rwy'n teimlo y byddai'n fwy buddiol o lawer i'r economi leol."*

Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn glir mai'r MSA a'r ACU oedd y cyrff priodol i oruchwylio'r rheoliadau newydd, a'u bod yn meddu ar y sgiliau a phrofiad angenrheidiol. Aeth rhai ohonynt ymhellach gan ddweud nad oedd yn debygol y gallai unrhyw gyrff eraill gyflawni'r swyddogaeth, er enghraifft "Mae'r MSA a'r ACU yn cael eu cydnabod fel cyrff llywodraethu ar gyfer chwaraeon modur yn y DU, ac mae ganddynt yr adnoddau a'r sail wybodaeth i'w galluogi i gyflawni rôl cyrff awdurdodi at ddibenion y ddeddfwriaeth."

Roedd yr ymateb negyddol hefyd yn canolbwyntio ar yr MSA a'r ACU, a mynegodd bryderon cryf ynghylch eu gallu i reoli a monitro digwyddiadau, er enghraifft; "Dydw i ddim felly yn ystyried bod yr MSA na'r ACU yn gyrff addas i dderbyn rhagor o bŵer byth."

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Er gwaethaf y gwrthwynebiad a nodir uchod sy'n ymwneud â phryder lleol, mae'n glir iawn bod mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau ac mae hyn yn cefnogi'r dull dewisol. Cafodd profiad MSA ac ACU mewn rheoli digwyddiadau rasio moduron ei gydnabod ac felly rydym o'r farn bod y dull arfaethedig yn ddibynadwy.

### **2.3.2 Cwestiwn 2: Pa effaith byddai hyn yn ei chael ar eich sefydliad?**

Ar y cyfan, ymatebodd 67 i'r cwestiwn hwn, gyda mwyafrif llethol yn gadarnhaol ynghylch yr effaith, a dim ond un yn gwrthwynebu, fel uchod. Ni roddodd naw o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau. Roedd rhai o'r sylwadau allweddol a wnaed gan nifer o'r ymatebwyr yn cynnwys y canlynol:

Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr sôn am y buddion economaidd i'r economi leol ac economi Cymru. Yn benodol, tynnodd y timau a sefydliadau chwaraeon modur sylw at y costau sy'n gysylltiedig ag ymweld â gwledydd eraill, er enghraifft; "Byddwn i'n ymweld â Chymru'n llawer amlach gyda fy nhîm a mwy na thebyg yn gwario oddeutu £1,000 ar bob ymweliad. Ar hyn o bryd rwy'n ymweld ag Iwerddon a Gwlad Belg i ralió mewn cystadlaethau ffyrdd caeedig ac rwy'n gwario tua'r un swm yno."

Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd o'r farn y byddai digwyddiadau ar ffyrdd caeedig yn helpu i leihau'r risg gyffredinol wrth gynnal digwyddiadau, er enghraifft: "O ran lleihau'r risgiau o'r digwyddiadau hyn cyn belled ag sy'n ymarferol resymol, dylai'r MSA fel awdurdod cymwys a chorff llywodraethu gael yr hawl i gau'r ffyrdd er mwyn lleihau'r risg i'r cyhoedd cyn belled ag y bo modd."

Tynnodd rhai sefydliadau ac awdurdodau lleol sylw at y manteision o gael ymwelwyr ychwanegol, yn arbennig yn ardaloedd gwledig Cymru, er enghraifft: "Yr effaith ar ein sefydliad fyddai cynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â Mynyddoedd Cambria, ac ysgogi gweithgarwch economaidd mewn ardal anghysbell nad oes llawer o bobl yn byw ynddi, ac y gellid ei hystyried yn addas ar gyfer rasio moduron. Efallai y byddai hefyd yn rhoi cyfle i ni weithio gyda grwpiau defnyddwyr na fyddem yn dod i gyswllt â nhw fel arfer - a thrwy hynny'n ehangu sylfaen ein rhanddeiliaid."

Roedd yr un ateb negyddol yn canolbwyntio ar y risgiau a'r peryglon o ganiatáu digwyddiadau ffyrdd caeedig mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft; "Os yw'r ffyrdd ar ein mynyddoedd yn cael eu troi'n gylchffyrdd rasio, fel y bwriedir, bydd "rebels rasio" yn cael eu denu i'r ardal fel gwyfyn i fflam."

## ***Ymateb Llywodraeth Cymru***

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn glir o ran effaith bosibl y Rheoliadau newydd hyn, a gwnaethant dynnu sylw at nifer o fuddion cadarnhaol, yn enwedig y manteision economaidd ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru. Felly, rydym yn fodlon bod y dull dewisol yn briodol.

**Cwestiwn 3: Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau arfaethedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Cyd-destun y Polisi a'r Fframwaith Cynllunio Trafnidiaeth**

**Cwestiwn 4: Eglurwch hefyd sut yr ydych yn credu y gellid llunio'r newidiadau i'r Rheoliadau neu eu newid fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, a pheidio â chael unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.**

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ddau gwestiwn hyn yn gadarnhaol. Mae'r cwestiynau yn orfodol ar gyfer ymgynghoriadau newydd gan Lywodraeth Cymru, a bwriedir iddynt ganolbwyntio ar effaith y Rheoliadau arfaethedig newydd ar y Gymraeg. Roedd y materion a godwyd ac enghreifftiau cadarnhaol a roddwyd yn cynnwys y canlynol:

Dywedodd yr ymatebwyr fod gan chwaraeon modur yng Nghymru bresenoldeb cryf eisoes o ran y Gymraeg, a thrwy ddenu rhagor o bobl i Gymru, na allai hyn ond codi proffil y Gymraeg. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys; *"Mae chwaraeon modur yn nodedig yng Nghymru oherwydd ei siaradwyr Cymraeg proffil uchel. Mae Pencampwr Rali Prydain yr MSA a chystadleuydd Pencampwriaeth Rali'r byd FIA, Elfyn Evans, yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf. Ac felly mae Osian Pryce, un o brif gystadleuwyr Cystadleuaeth Rali Prydain yr MSA, a seren y dyfodol yn WRC2. Yn ogystal, mae S4C yn darlledu'r rhaglen boblogaidd, Ralio."*

Nodwyd hefyd y byddai budd cadarnhaol a rhagor o ddiddordeb yn y Gymraeg gan ymwelwyr a chystadleuwyr sy'n teithio o amgylch Cymru, er enghraifft: *Bydd pwysigrwydd darllen ac ynganu'r Gymraeg yn gywir yn dod yn bwysig iawn ar gyfer chwilio'r ffordd, a bydd hynny'n cynnwys pobl nad ydynt yn byw yng Nghymru.*

Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd fod llawer o ddigwyddiadau lleol eisoes yn ddwyieithog, ac yn cynhyrchu gwybodaeth ynghylch digwyddiadau ac yn sylwebu ar rasio yn y ddwy iaith, gan osod esiamp l dda a fyddai'n cael ei dilyn gan ddigwyddiadau ac ymwelwyr ychwanegol, er enghraifft; *"gellid gwneud sylwebaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, a byddai hynny'n dda ac yn arddangos y Gymraeg i gynulleidfa newydd."*

Cafwyd rhai ymatebion negyddol hefyd i'r cwestiynau, gyda rhai o'r ymatebwyr yn cwestiynu pa mor berthnasol yr oeddent i faterion chwaraeon modur, gan nodi mai'r lleoliad a oedd yn bwysig, nid yr iaith, er enghraifft: *"Cwestiwn rhyfedd, yr iaith Gymraeg, rydym yn mynd am y chwaraeon moduron, nad oes ganddo ddim byd i'w ymwneud â pha iaith sy'n cael ei defnyddio, Cymraeg, ieithoedd India, Ffrangeg ... does dim ots!"* Hefyd; *"Er na fyddai'r hawl i gau ffyrdd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon yn cael unrhyw effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg, na'r defnydd ohoni, credaf nad yw'r cwestiwn yn berthnasol mewn gwirionedd i'r ymgynghoriad. Rwy'n siaradwr Cymraeg iaith gyntaf balch."*

Nododd rhai o'r ymatebwyr hefyd, er bod llawer o'r digwyddiadau lleol yn ddwyieithog y gallai'r MSA a'r ACU wneud mwy i sicrhau bod eu gwybodaeth yn ddwyieithog hefyd, er enghraifft: *"Mae chwaraeon modur y DU yn cael eu llywodraethu o Lundain gan y Gymdeithas Chwaraeon Modur. Mae'r rheoliadau chwaraeon modur yn gyfan gwbl yn Saesneg. Er hynny, efallai y gallai fod yn bolisi i Ddigwyddiadau Chwaraeon Modur Cymru gyhoeddi eu Rheoliadau Ychwanegol a'u ffurflenni mynediad yn y Gymraeg a'r Saesneg."*

Yn olaf, roedd llawer o'r ymatebwyr yn gadarnhaol o ran y manteision i ardaloedd gwledig lle roedd y Gymraeg ar ei chryfaf. Dyma yw'r lleoliadau lle y cynhelir y rhan fwyaf o ddigwyddiadau, a byddai hyn yn arwain at ragor o gyhoeddusrwydd i'r iaith, er enghraifft: *Mae'r iaith Gymraeg ar ei chryfaf yng Nghymru wledig, mae cystadleuwyr yn gwario arian mewn economïau lleol, sy'n fuddiol i'r Gymraeg, ac economi Cymru mewn ardaloedd tlotaf Cymru.*

Ar y cyfan, cafwyd 55 o ymatebion cadarnhaol i gwestiwn 3, a 46 i gwestiwn 4, gydag dim ond 4 a 6 ymateb negyddol i bob cwestiwn yn y drefn honno. Ni chafwyd unrhyw ymateb gan yr ymatebwyr eraill.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Er bod ychydig o ymatebwyr a oedd yn amheus o ran gwerth y ddau gwestiwn hyn am y Gymraeg, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gadarnhaol. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebwyr nad oeddent yn byw yng Nghymru, yn ogystal â'r rheini yng Nghymru, ac rydym yn fodlon bod hyn yn cynnig cyfiawnhad cryf o ran cynnwys y cwestiynau hyn.

### **Cwestiwn 5: Unrhyw faterion cysylltiedig eraill nas ymdriniwyd â nhw'n benodol**

Ar y cyfan, cafwyd ymateb da, gyda 46 o ymatebwyr yn rhoi sylwadau ychwanegol o ran unrhyw faterion perthnasol eraill, a 30 nad oeddent wedi gwneud hynny.

Yn yr un modd â'r cwestiynau cynharach, y prif fater a godwyd oedd y manteision economaidd posibl i economïau lleol ac economi genedlaethol Cymru, er enghraifft: *"Ni all y rheoliad arfaethedig i Gymru ond arwain at effaith gadarnhaol drwy ddod ag incwm i gymunedau sydd yn aml yn ddifreintiedig. Os bydd digwyddiad yn derbyn 100 o geisiadau i gystadlu, bydd pob un o'r ceisiadau hyn yn cynnwys pedwar unigolyn ar gyfartaledd yn dod i Gymru. Byddant yn aros am ddwy noson ac yn gwario £120 y pen ar gyfartaledd. Bydd cyfanswm y gwariant o fewn ardal y rali oddeutu £120,000."* Hefyd: *"Fel arfer mae rhwng pedwar a chwech ohonom sy'n dod i rali. Byddem yn aros mewn llety lleol, yn bwyta mewn bwytai lleol, ac yn prynu petrol yn ystod ein harhosiad. Lluoswch hyn gan fwy na 100 o dimau a gallwch weld sut byddai hyn o fudd i'r economi leol."*

Yn ogystal, roedd llawer o sylwadau y byddai'r Rheoliadau arfaethedig yn codi proffil a delwedd gadarnhaol chwaraeon modur yng Nghymru ymhellach, er enghraifft: *"Yn ogystal â mantais i'r economi a'r Gymraeg, byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol enfawr ar chwaraeon moduron yng Nghymru."*

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at yr hanes hir a balch sy'n ymwneud â chwaraeon modur yng Nghymru, ac y byddai'r rheoliadau newydd yn caniatáu ar gyfer ehangu ac adeiladu ar hyn, er enghraifft: *"Mae Cymru wedi mwynau perthynas iach gyda chwaraeon modur ers amser maith, boed hynny'n rali, rasio modur neu weithgareddau cysylltiedig eraill. Gyda hyn mewn golwg, byddai derbyn y newidiadau arfaethedig hyn yn sicr o fod yn fuddiol i'r chwaraeon hyn sydd eisoes yn boblogaidd ac yn tyfu ymhlith pobl Cymru."*

Yn olaf, ailadroddodd rhai o'r ymatebwyr eu pryderon o ran canolbwyntio ar y Gymraeg yn hytrach na materion allweddol eraill, yn enwedig y buddion economaidd, er enghraifft: *"Rwyf yn siomedig, ac yn ddig bod yr ymgynghoriad ynglŷn â Chystadlaethau Rasio Moduron ar Ffyrdd Caeedig yn pryderu mwy am y defnydd o'r Gymraeg na'r manteision ariannol a chymdeithasol y byddai'r hawl i gau ffyrdd yn dod â nhw i rai cymunedau lle byddai hyn yn llawer mwy manteisiol i fusnes lleol."*

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd yr ymatebion i gwestiwn 5 yn gadarnhaol ar y cyfan, ac rydym yn fodlon eu bod yn cefnogi ymhellach y dull dewisol o ran darparu'r Rheoliadau newydd.

### **Casgliadau**

Ar y cyfan, mae'n glir bod yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf a mis Awst 2017 ynghylch y Rheoliadau newydd ar gyfer rasio modur wedi cael ymateb da. Derbyniwyd cyfanswm o 76 o ymatebion gan y cyhoedd, awdurdodau lleol, busnesau a sefydliadau chwaraeon modur.

Roedd yr ymarfer ymgynghori hwn yn ceisio safbwyntiau ar ein hopsiwn dewisol i wneud Rheoliadau yng Nghymru sy'n nodi'r Gymdeithas Chwaraeon Modur ("MSA") a'r Undeb Beiciau Awtomatig ("ACU") fel cyrff a fydd â'r awdurdod i roi trwyddedau o dan adran 12B y Ddeddf Traffig Ffyrdd ar gyfer digwyddiadau rasio moduron ar briffyrdd cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd amrediad da o sylwadau a materion eu codi, ac roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn gefnogol o ran y dull dewisol a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori.